# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penygroes
# Safle Ysgol Bro Lleu
# Ffordd y Brenin
# Penygroes
# Caernarfon
# LL54 6RE

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Penygroes

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Penygroes |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Elen Pritchard, Sara Roberts |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Llinos Jones |
| Nifer y lleoedd | 18 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 5 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener; 08.30 – 14.45 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydi |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 15/05/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 02/04/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae Cylch Meithrin Penygroes yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Sicrhau fod llais y plant a'r staff yn bwydo'n fwy effeithiol i'r broses cynllunio

A2 Atgyfnerthu y prosesau goruchwylio a rheoli perfformiad ar gyfer ymarferwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Dim mewn gweithgarwch dilynol'Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.'

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae mwyafrif y plant yn cyfathrebu eu hanghenion yn hyderus ac ymatebir i'w ceisiadau ar unwaith. Er enghraifft, dywedodd un plentyn nad oedd yn hoffi blas ffrwyth mango amser byrbryd ac yn dilyn ymateb cadarnhaol mae'n gadael y ffrwyth ar un ochr. Mae nifer y plant yn cael digon o gyfleoedd i ddewis yr hyn y maent am ei wneud a ble maent yn dymuno chwarae.

Mae gan fwyafrif y plant berthynas glòs gydag ymarferwyr sy'n eu galluogi i ymdopi gydag absenoldeb eu rhieni. Er enghraifft, mae un plentyn yn rhedeg yn syth i ddwylo un ymarferwr wrth gyrraedd y lleoliad ac yn mynd i chwarae yn hapus braf gyda ffrindiau ar ôl cael cysur. Mae mwyafrif y plant yn ymgysylltu'n llwyr gydag amrywiaeth o weithgareddau ac yn mwynhau sgwrsio gydag ymarferwyr am eu teuluoedd a'u diddordebau. Mae mwyafrif y plant yn deall trefn y dydd ac yn eistedd yn hapus gyda'i gilydd yn ystod amser cofrestru.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd, yn deall y rheolau ymddygiad ac yn dysgu sut i rannu. Maent yn dangos caredigrwydd tuag at ei gilydd. Er enghraifft, mae un yn dal llaw ffrind yn dyner pan mae'r ffrind yn ofidus ar ôl syrthio y tu allan. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n dda ac yn helpu tacluso ar ôl sesiynau chwarae. Mae'r rhan fwyaf yn gyfarwydd â'r drefn ac yn tacluson'n drefnus. Maent yn sgwrsio'n hapus gyda'i gilydd wrth chwarae ac yn arddangos arwyddion cadarnhaol o feithrin perthynas dda gyda'u cyfoedion.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn ymgysylltu'n dda ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae ac yn dangos llawer o ddiddordeb yn yr hyn maent yn ei wneud. Er enghraifft, mae plant yn gwneud teisen mwd arbennig i un o'r ymarferwyr ac yn gwenu wrth ddweud wrthym eu bod yn hoffi beicio ar y beiciau coch a gwyrdd. Mae plant yn mwynhau chwarae rôl, er enghraifft wrth actio milfeddyg, gan ddatgan bod gan y tegan oen bach poen dannedd ac yn lapio rhwymyn o amgylch ei wyneb er mwyn iddo wella. Mae plant yn adrodd yn frwdfrydig am yr anifeiliaid gwahanol gwelsant y diwrnod cynt ac yn ymateb yn ddeallus pan ofynnir iddynt, pa mor fawr oedd y mochyn a'r sŵn a wnaeth.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn hyderus ac yn mwynhau datblygu eu sgiliau iaith Cymraeg trwy gynnal sawl sgwrs gyda'i gilydd a gydag ymarferwyr. Maent yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain, er enghraifft defnyddio'r toiled a'r cyfleusterau golchi dwylo yn annibynnol. Mae bron pob un yn dysgu am iechyd corfforol da drwy fwyta byrbrydau maethlon ffres a chwarae yn yr awyr agored. Maent yn hoffi cael cyfleoedd i gymryd cyfrifoldeb trwy eu rôl 'helpwr heddiw' ac yn cyflawni'r rôl yma'n llwyddiannus.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach mewn ffordd fedrus ac yn gwybod beth i'w wneud petai ganddynt bryder. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid da, gan sicrhau bod byrddau ac arwynebau'r gegin yn lân. Dilynant polisi newid clytiau sydd yn cyd fynd â'r cyngor rheoli heintiau diweddaraf. Sicrhâ'r ymarferwyr bod y plant yn dysgu am iechyd da y geg, gan ddilyn gweithdrefnau perthnasol i addysgu'r plant i frwsio eu dannedd. Mae dau ymarferwr wedi mynychu cyrsiau cymorth cyntaf pediatrig er mwyn rhoi cymorth cyntaf sylfaenol pe bai angen. Mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi'n briodol ac yn gofyn i'r rhieni lofnodi er mwyn cydnabod eu bod wedi cael eu hysbysu. Maent yn sicrhau bod pawb yn gwybod sut i adael y safle mewn argyfwng drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd.

Mae rhan fwyaf yr ymarferwyr yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth ac yn modelu ymddygiad yn arbennig o dda. Maent yn gosod strwythur clir ar gyfer y gweithgareddau ac yn atgoffa'r plant yn barhaus o beth fydd yn digwydd nesaf. Mae'r eglurder yma'n cynnal diddordeb y plant yn effeithiol sy'n golygu bod plant yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd trwy gydol y sesiwn. Mae ymarferwyr yn siarad â'r plant ar eu lefel nhw ac yn dangos cynhesrwydd a pharch gwirioneddol atynt. Maent yn manteisio ar bob cyfle i ganmol plant ac maent yn defnyddio iaith gadarnhaol yn gyson i gydnabod cyflawniadau pob plentyn.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i gynllunio ystod eang o weithgareddau i hyrwyddo datblygiad plant a chyfoethogi eu profiadau gan ymateb i anghenion unigolion. Er enghraifft, maent yn cadw cofnodion datblygiad perthnasol er mwyn cynllunio ar gyfer chwarae a dysgu pob plentyn. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dysgu'r plant yn llwyddiannus drwy eistedd wrth eu hymyl yn ystod gweithgareddau. Maent yn eu hannog i drafod yr hyn y maent yn eu gwneud ac yn defnyddio'r iaith Cymraeg trwy gydol yr amser fel bod pob plentyn yn clywed yr iaith yn gyson. Mae ymarferwyr yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o gamau datblygiad plentyn trwy sicrhau cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu medrau yn eu hamser eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn frwdfrydig ac yn gwneud y dysgu'n hwylus i blant. Er enghraifft, trwy ymgymryd mewn gweithgareddau corfforol ochr yn ochr â'r plant gan chwerthin a gwenu wrth iddynt fwynhau ymarfer corff drwy symud a chân.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Cryfder mwyaf Cylch Meithrin Penygroes yw'r berthynas waith hyfryd sy'n bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr a'r ffordd mae'r ymarferwyr yn darparu awyrgylch ddysgu ysgogol a rhyfeddol iddynt.

Mae ymarferwyr yn cofnodi a thrafod deilliannau'r plant yn rheolaidd er mwyn i'r arweinydd gynllunio gweithgareddau pwrpasol i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Maent hefyd yn sicrhau bod y gweithgareddau a phrofiadau dysgu'n ennyn diddordeb bron pob plentyn yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael ei gefnogi'n effeithiol drwy ystod addas o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae ymweliad criw o anifeiliaid gwahanol wedi sbarduno'r plant i drafod eu profiadau a chyfoethogi eu hiaith gydag ansoddeiriau perthnasol. Fodd bynnag nid ydynt yn ystyried llais y plentyn yn ddigonol ar hyn o bryd ac nid yw rôl yr ymarferwyr yn y

broses gynllunio wedi ei ddatblygu'n llawn eto. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd da o fframwaith y cyfnod sylfaen a'r fframwaith rhifedd a llythrennedd wrth gynllunio. O ganlyniad, mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth bwrpasol o'r hyn y mae'r plant yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei ddatblygu. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cynllunio profiadau dysgu sy'n datblygu medrau'r plant yn rhesymegol ar draws yr holl ardaloedd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn ymdrechu'n llwyddiannus i ddatblygu medrau plant mewn ffordd hwylus. Maent yn gwneud defnydd da o ganeuon, storïau ac arferion dyddiol er mwyn datblygu medrau iaith y plant yn gadarn. Maent yn cynllunio cyfleoedd i addysgu medrau rhifedd yn rheolaidd. Enghraifft dda o hyn yw gweithgareddau fel chwilio am rifau yn y twba tywod gyda pheiriant metel er mwyn eu trefnu yn gywir, neu ddyrannu siapiau mewn i setiau gyda bachwyr sy'n datblygu'u medrau rhifedd a'u medrau mudol mân mewn ffordd hwylus. Mae ymarferwyr yn darparu profiadau gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Er enghraifft trwy reoli tegan rhaglenadwy gyda chymorth, neu dynnu llun gan ddefnyddio llechen electronig er mwyn eu hysgogi i drafod eu gweithgareddau ymhellach.

Mae ymarferwyr yn denu ymatebion o'r plant yn fedrus ac yn gwybod pryd i adael iddynt ddarganfod drostynt eu hunain. Maent yn modelu iaith lafar yn dda gan atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa gyfarwydd yn gadarn. Mae hyn, ynghyd â gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig, yn sicrhau bod yr ethos Cymreig yn gryf. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn holi plant yn effeithiol, er mwyn ehangu eu dealltwriaeth ac i ddatblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus.

Mae'r arweinydd yn cynllunio a darparu profiadau buddiol i'r plant gael datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfle i gasglu arian yn rheolaidd i gefnogi elusennau gwahanol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac maent yn sefydlu gweithdrefnau effeithiol i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod system ddiogel i atal mynediad i'r gwasanaeth. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg ysgrifenedig priodol ar gyfer yr amgylchedd ac ar weithgareddau fel bo'r angen. Maent yn eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn galluogi'r arweinwyr i weithredu ar unrhyw faterion sy'n codi. Er enghraifft, maent yn creu asesiad risg ysgrifenedig o flaen llaw sy'n dangos sut yr ydynt am gadw'r plant yn ddiogel cyn i'r anifeiliaid ymweld â'r lleoliad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda a bod y gwasanaeth a'r adnoddau yn lân ac o ansawdd da.

Mae arweinwyr yn llwyddo i ddarparu amgylchedd groesawgar a hwyliog sy'n rhoi cymhelliant i'r plant yn eu datblygiad ac yn cyfoethogi'u profiadau. Mae'r ystafell chwarae yn lliwgar gydag arddangosfeydd niferus o waith y plant sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn a balchder i'r plant. Mae arweinwyr yn rhoi sylw da i hybu dysgu'r plant yn yr awyr agored ac yn creu amgylchedd sy'n hyrwyddo chwilfrydedd naturiol y plant. Er enghraifft, mae yna ardaloedd lle gall plant arbrofi yn y gegin fwd, mynd ar beiciau neu i greu marciau. Mae'r amgylchedd i gyd yn hybu annibyniaeth y plant ac yn eu galluogi i ddysgu drwy chwarae yn llwyr. Er enghraifft, mae'r ardaloedd chwarae yn cynnig digon o le i'r plant symud o gwmpas ac yn eu hannog i ymchwilio a dysgu'n effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth y plant yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod y dewis o adnoddau a gweithgareddau yn annog y plant i ddilyn eu diddordebau a datblygu sgiliau gwahanol. Er enghraifft mae'r plant yn plannu hadau ac yn dysgu sut i arddio ac yn gwirioni wrth weld bod chwilen wedi newid i pili pala. Mae arweinwyr yn darparu eitemau naturiol, eitemau wedi'u hailgylchu ac eitemau cartref i'r plant at ddibenion gwaith crefft a modelu. Mae hyn yn hybu ethos o gynaladwyedd yn y gwasanaeth. Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau ar gael i adlewyrchu cymdeithas ehangach i'r plant a dethlir digwyddiadau megis Diwali a Dydd Gŵyl Dewi.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu gwasanaeth o safon uchel o ran lles, gofal ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hi yn cyfleu hyn yn effeithiol i'r holl ymarferwyr, rhieni a'r gymuned ehangach ac yn arwain trwy esiampl gan osod disgwyliadau uchel i'r ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r arweinydd wedi sicrhau gwelliannau amlwg i'r ddarpariaeth ers iddi gael ei phenodi. Mae'r arweinydd yn rhannu cyfrifoldebau ymysg y staff yn bwrpasol ac mae'r staff yn gweithredu ar y rhain yn gydwybodol. Er enghraifft, mae'r drefn wythnosol a dyddiol yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau'n glir.

Mae'r arweinydd yn sicrhau cyflenwad addas o ymarferwyr sy'n gymwys i weithio gyda'r amrediad eang o blant sy'n mynychu. Mae prosesau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cyfrannu'n werthfawr i gyflawni nodau strategol ac amcanion y lleoliad.

Mae'r arweinydd yn trefnu hyfforddiant buddiol i ymarferwyr sy'n berthnasol i'w gwaith trwy fynychu cyrsiau addas. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad proffesiynol yn ogystal â gwella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad a lles y plant.

Mewn amser byr, mae'r arweinydd wedi gosod trefniadau cadarn mewn lle i weithio gyda staff allanol ar gyfer hunanwerthuso, ac mae cynlluniau mewn lle ar gyfer cynnwys llais y plant a'r ymarferwyr yn fwy effeithiol wrth fireinio'r broses. Mae'r trefniadau yn galluogi'r arweinydd i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r meysydd ar gyfer datblygu yn gywir. Mae'r arweinydd yn defnyddio'r cynllun datblygu yn effeithiol i wella ar y blaenoriaethau a nodwyd, er enghraifft trwy gyfoethogi'r ardal ysgrifennu fel bod plant yn derbyn cyfleoedd i ysgrifennu i bwrpas yn rheolaidd.

Mae trefniadau addas mewn lle i sicrhau goruchwyliaeth ymarferwyr. Yn ddiweddar, mae'r broses o arsylwadau wedi ailddechrau er mwyn adnabod cryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant yn yr addysgu, ond nid ydynt eto wedi gwreiddio'n llawn eto.

Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau gwerthfawr sydd yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau plant. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni trwy rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau pwysig ac adrodd ar ddatblygiad eu plant. Ers i'r arweinydd ddechrau, mae hi wedi creu perthynas fuddiol gyda'r ysgol leol gan sicrhau eu bod yn asesu cynnydd y plant yn defnyddio'r un system. Mae hi wedi trefnu bod y plant yn ymewld â'r ysgol, yn ogystal a threfnu fod staff y dosbarth meithrin yn ymwled â'r lleoliad. Mae'r camau newydd yma yn cynorthwyo plant i drosglwyddo'n esmwyth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/06/2019